



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

BA Addysg Gynradd gyda SAC

**Canolfan Addysg Athrawon
De-Orllewin Cymru (CAADOC)**

Llawlyfr Canllawiau Cyfeirnodi

2017-2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Dyfynnu Awduron o fewn Testun Aseiniad	3
3. Gwahanol ffyrdd o ddefnyddio cyfeirnoddi yn eich gwaith	7
4. Rhestr Cyfeirnodau a Llyfryddiaeth	10
4.1 Cyfeirnoddi Llyfrau	12
4.2 Cyfeirnoddi Llyfrau Electronig	15
4.3 Cyfeirnoddi Erthyglau Cylchgronau	16
4.4 Cyfeirnoddi Cylchgronau Electronig	18
4.5 Cyfeirnoddi Gwefannau	19
4.6 Cyhoeddiadau gan lywodraethau a sefydliadau eraill	21
4.7 Cyfeirnoddi Papurau Newydd	22
4.8 Cyfeirnoddi Rhaglenni Teledu / Radio	23
4.9 Cyfeirnoddi Ffilm / Fideo neu DVD	24
4.10 Papurau a Chyflwyniadau mewn Cynadleddau	25
4.11 E-bost	26
5. Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth	27

1. Cyflwyniad

Yn CAADOC bydd angen i chi gyfeirnod i'r wybodaeth a ddefnyddiwr wrth ysgrifennu eich aseiniadau. Mae'r Ganolfan yn defnyddio **System Gyfeirnod Harvard** ar gyfer dyfyniadau "o fewn y testun" ac i greu y rhestr cyfeirnodau, sy'n adnabyddus hefyd fel y "*dull awdur, dyddiad*".

Lluniwyd y canllawiau canlynol i'ch helpu i ddeall a defnyddio'n gywir y system gyfeirnod hon y mae CAADOC yn ei ffafrio wrth baratoi eich ymatebion i holl aseiniadau'r modylau.

Yn y canllawiau hyn ceir:

- Enghreifftiau o sut i gyfeirnod yn eich testun (traethawd neu aseiniad)
- Enghreifftiau o sut i gynnwys dyfyniadau uniongyrchol yn eich gwaith
- Enghreifftiau o sut i aralleirio
- Gwybodaeth ar sut i lunio rhestr cyfeirnodau/llyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith
- Cyngor ar sut i drefnu eich rhestr cyfeirnodau/llyfryddiaeth
- Rhestr cyfeirnodau/llyfryddiaeth enghreifftiol

Mae'r canllawiau hyn yn bwysig iawn a dylech eu defnyddio wrth ysgrifennu unrhyw waith cwrs er mwyn sicrhau eich bod yn cyfeirnod i'n gywir. Mae angen ymarfer cyfeirnod felly wrth i chi ysgrifennu eich holl waith cwrs dylech gadw'r ddogfen gyfarwyddyd hon wrth law.

Mae cyfeirnod (neu ddyfynnu) yn golygu eich bod yn cydnabod eich bod wedi cymryd syniadau neu eiriau o erthygl neu lyfr rydych wedi'i ddarllen, CD rydych wedi gwrandao arno, DVD rydych wedi'i wyllo neu unrhyw ffynhonnell arall gan gynnwys y rhwyngwyl, ac yn ei roi yn eich aseiniad. Mae'n hanfodol fod unrhyw wybodaeth rydych wedi'i defnyddio'n cael ei chyfeirnod i'n gywir. Os na fyddwch yn cyfeirnod yna mae'n bosibl yr ystyrir bod eich gwaith wedi cael ei **Lên-ladrata**, sy'n gyfystyr â **thwylio**, ac mae'n drosedd ddifrifol iawn sy'n hollol annerbyniol yn y Brifysgol.

Mae cyfeirnod i'n rhoi tystiolaeth eich bod wedi gwneud eich gwaith ymchwil eich hunan gan alluogi i chi ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer dysgu mewn dyfnder. Mae'n caniatáu i chi gael persbectif eang ar wahanol faterion ac i ystyried gwahanol agweddau a safbwyntiau yn y pynciau rydych chi'n eu hastudio. **Ni ellir cyflawni hyn yn syml trwy ddefnyddio nodiadau dosbarth a thafleuni gwybodaeth i gwblhau eich aseiniadau.**

Mae holl broses cyfeirnodï'n golygu eich bod yn cadw cofnod manwl o bob darn o wybodaeth a ddefnyddiwyd. Mae'n beth rhwystredig iawn dod o hyd i erthygl neu ddogfen ddefnyddiol ac yna methu ei leoli eto pan fod angen oherwydd nad ydych wedi cadw cofnod cywir o'r ffynhonnell. Petai'r ddogfen hon ddim ar gael mwyach, yna ni fyddai gennych chi gofnod o'r wybodaeth ac ni fyddai modd i chi ei defnyddio yn eich traethawd. **Mae'n hanfodol cadw cofnod (gweler yr adran "Sut i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lunio Rhestr Cyfeirnodau" yn Adran 4).**

Ceir enghreifftiau'n ddiweddarach yn y canllawiau hyn o'r wybodaeth y dylech chi ei chofnodi ar gyfer pob math o adnodd a ddefnyddir gennych.

Cyfrwng Cymraeg

Mae prinder cyfeirlyfrau yn y Gymraeg a bydd disgwyl i chi ddarllen yn eang yn y Saesneg. Wrth gyfeirio at ffynonellau Saesneg dylid defnyddio'r un drefn yn hollol ac wrth ysgrifennu yn y Saesneg. Mae'n dderbyniol i ddyfynnu'n uniongyrchol o'r Saesneg gan ochel rhag gor-ddyfynnu wrth gwrs.

Dylid osgoi cyfieithu gair am air. Mae cyfieithu yn sgil a gwell byddai aralleirio'r cynnwys gan gydnabod y ffynhonnell fel yr amlinellir yn y canllawiau hyn. Wrth wneud hynny arddangosir y gallu i drawsieithu gan gyfleu'r ystyr yn eich geiriau eich hun.

2. Dyfynnu Awduron o fewn Testun Aseiniad

Dyfynnu un awdur

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn eich testun

Maen bosibl y byddwch eisiau cyfeirio at awdur yn uniongyrchol trwy ddatgan eu bod wedi dweud neu ddynodi rhywbeth penodol.

Er enghraifft:

Awgryma Jones (2008) fod chwarae yn yr awyr agored yn rhoi sgiliau cymdeithasol pwysig i blant.

Mae chwarae yn yr awyr agored yn darparu nifer o sgiliau cymdeithasol pwysig. Cefnogir y farn hon gan Jones (2008).

Sylwer yma fod y dyddiad mewn cromfachau ar ôl enw'r awdur.

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Yn y fan hon rydych chi'n gwneud gosodiad ac yna'n dyfynnu cyfeirnod fel tystiolaeth.

Er enghraifft:

Mae chwarae yn yr awyr agored yn rhoi nifer o sgiliau cymdeithasol pwysig i blant (Jones, 2008).

Yma mae'r awdur a'r dyddiad mewn cromfachau ar ôl i'r gosodiad gael ei wneud.

Dyfynnu mwy nag un awdur yn uniongyrchol yn y testun

Er enghraifft:

Awgryma Jones (2008) ac Evans (2009) fod chwarae yn yr awyr agored yn rhoi.....

Cefnogir y farn hon gan Jones (2008) ac Evans (2009)...

Dyfynnu mwy nag un awdur yn anuniongyrchol yn y testun

Er enghraifft:

Awgryma nifer o awduron fod chwarae yn yr awyr agored yn cynorthwyo datblygiad cymdeithasol (Thomas, 2005; Jones, 2008; Evans, 2009).

Cofiwch, os ydych chi'n nodi bod rhywbeth yn farn gyffredin neu fod nifer o awduron wedi awgrymu safbwynt, yna mae'n rhaid i chi ddyfynnu nifer o awduron lle rydych wedi darllen y wybodaeth hon.

Dau awdur ar gyfer yr un gwaith

Pan mae dau awdur ar gyfer yr un gwaith dylid nodi'r ddau yn y testun:

Er enghraifft:

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn y testun

Canfu Davies ac Evans (2008) yn eu papur ymchwil diweddar fod.....

Awgryma ymchwil gan Davies ac Evans (2008) fod.....

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Dengys ymchwil ddiweddar fod chwarae yn yr awyr agored yn fanteisiol i sgiliau cymdeithasol plant (Davies ac Evans, 2008).

Dyfynnu mwy na dau awdur

Mwy na dau awdur ar gyfer yr un gwaith

Pan mae enwau nifer o awduron ar ffynhonnell (mwy na dau), dim ond yr awdur cyntaf sydd angen ei gyfeirnod yn y testun gan roi 'et al.' ar ei ôl, sy'n golygu 'ac eraill':

Er enghraifft:

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn y testun

Canfu Evans et al. (1995) fod

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Canfu ymchwil ddiweddar fod (Evans et al., 1995)

Dim dyddiad?

Ar adegau prin iawn mae'n bosibl y cewch ddarn o wybodaeth sydd heb ddyddiad.

Mewn achosion o'r fath rydych yn dangos hyn trwy nodi dyddiad anhysbys/dim dyddiad.

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn y testun

Mae Thomas (dyddiad anhysbys/dim dyddiad) wedi dangos.....

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Dangosodd ymchwil arloesol (Smith, dyddiad anhysbys/dim dyddiad) fod.....

Dylid gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i'r flwyddyn gyhoeddi wrth ddefnyddio'r wybodaeth mewn aseiniad.

Rhifau Tudalennau

Defnyddio Rhifau Tudalennau

Dyma'r rheol gyffredinol yma:

- dylech bob amser ddefnyddio rhifau tudalennau wrth gyfeirio at ddyfyniadau uniongyrchol (gweler adran 3).
- os ydych chi'n aralleirio syniad neu fater penodol a geir ar dudalen neu mewn adran o lyfr neu erthygl yna gellir nodi'r rhif(au) tudalennau) ar gyfer hwn hefyd.

Nid oes angen rhifau tudalennau bob amser wrth i chi aralleirio syniadau cyffredinol yn enwedig pan mae'r syniadau hyn yn ganolog i ddamcaniaeth neu waith awdur neu pan maent yn bwyntiau hollbwysig mae awdur yn eu hailadrodd trwy gydol y llyfr neu'r erthygl.

Dyma'r fformat wrth ddyfynnu rhifau tudalennau. Bydd Adran 3 yn cynnwys rhagor o enghreifftiau o ddefnyddio rhifau tudalennau.

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn y testun

Datganodd Lawrence (2014: 125) fod.....

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Mae chwarae yn yr awyr agored yn darparu profiad ysgogol (Lawrence, 2014: 125)

Mae 125 yn cyfeirio at rif y dudalen.

Dyfynnu sawl darn o waith gan yr un awdur mewn gwahanol flynyddoedd

Nifer o weithiau gan un awdur mewn blynyddoedd gwahanol

Os oes mwy nag un cyhoeddiad gan awdur yn esbonio'r un pwynt ac mae'r gweithiau wedi'u cyhoeddi mewn blynyddoedd gwahanol, yna dylid dyfynnu'r cyfeirnodau mewn trefn gronolegol (y cynharaf yn gyntaf).

Er enghraifft:

Dyfynnu awduron yn uniongyrchol yn y testun

Fel yr awgrymwyd gan Jones (2008, 2009) mae chwarae yn yr awyr agored yn cynorthwyo datblygiad cymdeithasol plentyn.

Dyfynnu awduron yn anuniongyrchol yn y testun

Gall chwarae yn yr awyr agored gynorthwyo datblygiad cymdeithasol plentyn (Jones 1992, 1994.)

Weithiau gall yr un awdur neu grŵp o awduron fod wedi cyhoeddi mwy nag un erthygl yn yr un flwyddyn.

Wrth ddyfynnu sawl darn o waith a gyhoeddwyd gan yr un awdur yn yr un flwyddyn mae angen eu gwahaniaethu trwy gynnwys llythyren fach ar ôl y flwyddyn ar gyfer pob cyhoeddiad.

Er enghraifft:

Er i ymchwil gan Jones (2008a) ganfod fod chwarae yn yr awyr agored wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm, noda ymchwil ddiweddar nad oes gan ymarferwyr y sgiliau i gynnig darpariaeth gynhwysfawr (Jones, 2008b).

Pan gyfeirir yn yr un man at nifer o weithiau a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn neu pan mae'r un awdur neu grŵp o awduron wedi gwneud yr un pwyntiau allweddol mewn nifer o gyhoeddiadau, gellir eu dyfynnu i gyd trwy gynnwys llythyren fach ar ôl y flwyddyn gyhoeddi.

Er enghraifft:

Mae Jones (2008a, b, c) wedi datgan ar sawl achlysur fod chwarae yn yr awyr agored o fudd i blant wrth iddynt ddysgu.

3. Gwahanol ffyrdd o ddefnyddio cyfeirnoddi yn eich gwaith

Dyfyniadau

Dyfyniadau uniongyrchol

Weithiau mae darn o wybodaeth mor glir a defnyddiol yng nghyd-destun eich aseiniad nes eich bod chi eisiau ei ddyfynnu'n uniongyrchol. Er enghraifft rhywbeth rydych chi wedi'i ddarllen ac rydych chi eisiau ei gynnwys **gair am air** yn eich traethawd. Dyma i chi ddyfyniad uniongyrchol ac mae'n rhaid i chi ddangos mai dyfyniad uniongyrchol yw e yn eich traethawd. Dim ond ychydig o ddyfyniadau uniongyrchol dylid eu defnyddio a hynny er mwyn pwysleisio rhywbeth. Mae traethawd sy'n cynnwys un dyfyniad hir ar ôl y llall yn draethawd gwan ac nid yw'n caniatáu i chi ddangos eich sgiliau dadansoddi a gwerthuso. Mae'n awgrymu nad ydych chi'n gallu gwneud synnwyr o'r gwaith eich hunan. Defnyddiwch ddyfyniadau sy'n ystyrlon ac sy'n cefnogi'r dadleuon a'r pwyntiau rydych chi'n ceisio eu gwneud yn eich traethawd. Maen nhw'n dystiolaeth o'r syniadau rydych chi wedi'u trafod yn eich aseiniadau. **Fel rheol gyffredinol ni ddylech gynnwys mwy na dau ddyfyniad ar unrhyw dudalen mewn aseiniad.**

Wrth gyfeirnoddi dyfyniadau yn nhestun aseiniad.

Mae angen y canlynol ar gyfer pob dyfyniad:

- cyfenw'r awdur
- dyddiad cyhoeddi
- y dudalen lle mae'r dyfyniad yn ymddangos mewn llyfr neu ffynhonnell arall
- y dyfyniad ei hun mewn dyfynodau

Dyfyniadau byr (hyd at tua 30 o eiriau)

Er enghraifft:

Awgryma Jones (2008: 57) 'a child responds positively to outdoor experience' ac felly dylid annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Mae'n bwysig herio dysgwyr er mwyn cynnal eu brwdfrydedd. Un ffordd o wneud hyn yw trwy osod amrywiaeth o broblemau diddorol i fyfyrwyr eu datrys oherwydd 'thinking can be very exciting and highly motivating for students' (Cowley, 2004: xiii)

Dyfyniadau Hir (mwy na tua 30 o eiriau)

Mae profiadau awyr agored yn darparu cyfleoedd i blant ifainc wella eu sgiliau corfforol, cymdeithasol a gwybyddol. Fel y noda Jones (2008):

The outdoors provides an unrivalled activity centre, where children can run, jump, climb, learn to play with friends and carers and learn about nature. They can feel the different elements, engage all their senses and most importantly have fun and exercise.

(Jones, 2008: 25).

Sylwer bod y dyfyniad yn ymddangos ar wahân i brif destun y traethawd ac mae wedi'i fewnoli bob ochr. Yn wahanol i ran fwyaf eich traethawd dylid defnyddio bylchiad sengl ar gyfer y dyfyniad hir. Nid oes angen i chi ddefnyddio dyfynodau felly gyda dyfyniadau hir.

Dylai dyfyniadau fod yn ystyrlon a dylent ychwanegu at y pwyntiau sy'n cael eu gwneud. Peidiwch â defnyddio dyfyniadau dim ond er mwyn cyrraedd y cyfanswm geiriau gofynnol neu oherwydd eich bod chi'n teimlo ei bod yn rhaid i chi.

Aralleirio

Dyma'r hyn y byddwch chi'n ei wneud yn aml mewn traethodau ac aseiniadau eraill pan fyddwch yn cymryd y syniadau a'r egwyddorion rydych chi wedi'u darllen ac wedi gwrandao arnynt a'u rhoi nhw **yn eich geiriau eich hun**. Mae'n gamsyniad eithaf cyffredin mai dyfyniadau uniongyrchol yn unig sydd angen eu cyfeirnod. **Nid yw hyn yn wir**. Rhaid i unrhyw syniadau, damcaniaethau, safbwyntiau neu unrhyw wybodaeth a gymerwyd o rywle arall gael eu cyfeirnod i'n gywir. Crefft ysgrifennu traethawd da yw gallu defnyddio eich arddull academiaidd chi i weu syniadau a chanlyniadau ymchwil awduron eraill ynghyd. Serch hynny mae'n rhaid i chi ddyfynnu'r holl awduron sydd wedi rhoi'r wybodaeth hon i chi oherwydd nid chi greodd y damcaniaethau neu'r ymchwil a ddyfynnir. A dweud y gwir mae'n rhaid i chi ddefnyddio ymchwil pobl eraill i gefnogi'r materion rydych chi'n eu trafod mewn traethawd neu aseiniadau eraill.

Er enghraifft efallai eich bod yn darllen am Piaget a Vygotsky ac yn gyfarwydd iawn â'u gwaith ond rhaid i chi bob amser ddyfynnu'n gywir ble rydych chi'n darllen am eu syniadau. Dyma natur gwaith academiaidd gydag academyddion yn gwrtais wrth ei gilydd ac ni ddylent fyth gyflwyno gwaith rhywun arall fel eu gwaith nhw.

Enghraifft o ddarn o destun gydag aralleirio:

Mae Jones (2008) yn amlygu pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored ac yn awgrymu bod angen cyfleoedd ar blant i ymwneud â natur fel dull o wella eu datblygiad emosiynol a chorfforol. Mae astudiaethau eraill hefyd yn amlygu pwysigrwydd gweithgareddau awyr agored yn cynnwys mentrau Ysgolion Coedwig (Evans, 2007; Thomas, 2009), profiadau dysgu yn yr awyr agored (LICC, 2008a, b, c) a rhaglenni addysg amgylcheddol (Fien a Tilbury, 1997; Kaplan a Kaplan, 2002)..... Awgryma ystadegau a ddyfynnwyd mewn ymchwil a gwblhawyd ar ran y Comisiwn Coedwigaeth (Morgan, 2007) fod 30% o blant ifainc ddim yn cael profiad o'r amgylchedd naturiol fwy nag unwaith yr wythnos.

4. Rhestr Cyfeirnodau a Llyfryddiaeth

Wrth ddyfynnu testun, nid yw'r hyn a drafodwyd hyd yma o unrhyw werth o gwbl heb restr gyfeirnodau neu lyfryddiaeth ar ddiwedd eich aseiniad, yn darparu set lawn o fanylion am bob ffynhonnell rydych wedi'i dyfynnu yn eich aseiniad.

Mae Rhestr Cyfeirnodau yn rhestr o'r wybodaeth rydych wedi'i defnyddio yn eich traethawd a rhaid i bob awdur a ddyfynnwyd gyfateb yn union i'r casgliad o ffynonellau yn eich rhestr ar ddiwedd eich aseiniad.

Mae Llyfryddiaeth yn rhestr o bob darn o wybodaeth rydych wedi'i defnyddio hyd yn oed os nad yw'n ymddangos yn nhestun eich aseiniad.

Mae CAADOC yn defnyddio'r dull Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth a dyma'r dull y dylech ei ddilyn yn eich holl aseiniadau.

Paratoi Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth

Sut i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lunio Rhestr Cyfeirnodau

Bydd y wybodaeth sydd ei hangen yn ymddangos ar y llyfr, erthygl, fideo, papur newydd, DVD neu ffynhonnell arall a ddefnyddiwyd. Rhaid i chi fod yn dditectif a sicrhau eich bod yn dod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen i lunio Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth briodol. Felly wrth ysgrifennu eich aseiniadau byddai'n syniad da:

- **cadw llyfr nodiadau, cardiau mynegeo neu ddogfen electronig a phob tro y byddwch chi'n defnyddio unrhyw wybodaeth, nodwch y manylion cyfeirnodu'n llawn. Os gwnewch chi hyn wnewch chi ddim colli deunydd pwysig a gallwch ddod o hyd iddo'n hawdd eto os bydd eisiau;**
- **teipiwch eich rhestr cyfeirnodau/llyfryddiaeth ar gyfer pob aseiniad wrth i chi fynd yn eich blaen. Peidiwch â gadael y gwaith o deipio'r rhestr cyfeirnodau/llyfryddiaeth tan y funud olaf oherwydd dyma pryd y bydd gwallau teipio dwl yn ymddangos a phethau'n cael eu hepgor o'ch gwaith.**

Bydd yr adran nesaf yn egluro sut i gyflwyno Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth cywir ac yn disgrifio'r fformat angenrheidiol. **Mae'r defnydd o atalnodi a chromfachau wrth lunio rhestr cyfeirnodau yn bwysig iawn.** Fe allwch golli marciau am gyflwyniad esgeulus sydd ddim yn dilyn y cyfarwyddyd hwn yn fanwl gywir.

Beth bynnag yw ffynhonnell y deunydd rydych chi'n ei ddefnyddio mae'n arferol nodi'r awdur (boed yn berson neu sefydliad) a'r dyddiad yn y testun a gosod y cyfeirnod llawn yn y Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth.

4.1 Cyfeirnod Llyfrau

Hanfodion Cyfeirnod Llyfrau

Fformat i'w ddilyn:

Coma ar ôl y cyfenw

Atalnod llawn ar ôl llythyren gyntaf yr enw

Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)

Argraffiad (gyda atalnod llawn i ddilyn) – nodwch hyn os nad yr argraffiad cyntaf yw

Teitl y llyfr mewn print italig (gydag atalnod llawn ar ddiwedd y teitl)

Man cyhoeddi – tref neu ddinas, nid gwlad (gyda cholon i ddilyn)

Cwmni cyhoeddi (yn llawn) (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Er enghraifft:

1 awdur

Hurst, V. (1999) *Planning for Early Learning*. London: Paul Chapman Publishing.

2 awdur

Greig, A. a Taylor, J. (2007) *Doing Research with Children*. London: Sage Publications.

Mitchell, P. a Ziegler, F. (2007) *Fundamentals of Development: the Psychology of Childhood*. Nottingham: Nottingham University Press.

3 awdur

Sylva, K., Roy, C. a Painter, M. (1986) *Childwatching at Playgroup and Nursery School*. Oxford: Blackwell.

Wrth i chi ychwanegu rhagor o awduron rhoddir 'a' ar ôl llythyren gyntaf enw'r awdur olaf ond un yn hytrach na choma.

Yn y testun

Mae Sylva et al. (1986) yn amlygu pwysigrwydd arsylwi ar blant a'r modd y gall y cyfleoedd hyn ganiatáu i ymarferwyr gofal plant wella profiadau dysgu plant ifainc. Mae Greig a Taylor (1999) yn cefnogi'r safbwyntiau hyn ac yn darparu fframwaith moesegol cryf er mwyn ymgymryd ag astudiaethau arsylwadol o'r fath.

Yn y Rhestr Cyfeirnodau

Greig, A. a Taylor, J. (1999) *Doing Research with Children*. London: Sage Publications.

Hurst, V. (1999) *Planning for Early Learning*. London: Paul Chapman Publishing.

Mitchell, P. a Ziegler, F. (2007) *Fundamentals of Development: the Psychology of Childhood*. Nottingham: Nottingham University Press.

Sylva, K., Roy, C. a Painter, M. (1986) *Childwatching at Playgroup and Nursery School*. Oxford: Blackwell.

Cyfeirnod Llyfrau â Golygyddion

Mae llyfrau weithiau'n cael eu golygu, sy'n golygu bod gwahanol awduron wedi ysgrifennu gwahanol benodau yn y llyfr.

Os oes golygydd neu olygyddion gan lyfr rydych chi'n ychwanegu (gol) neu (goln) ar ôl yr enw.

Er enghraifft:

Pugh, G. (gol) (1996) *Contemporary Issues in the Early Years*. London: National Children's Bureau.

Shonkoff, J. P. a Meisels, S. (goln) (2000) *Handbook of Early Childhood Intervention*.

Cambridge: Cambridge University Press.

Pan fyddwch yn defnyddio llyfr wedi ei olygu ac os dim ond rhai penodau yr ydych wedi eu defnyddio, y rhain yw'r rhai dylid cyfeirio ato yn y Rhestr Cyfeirnod/Llyfryddiaeth.

Er enghraifft:

Wolfendale, S. a Wooster, J. 'Meeting Special Needs in the Early Years', yn G. Pugh (gol), (1996) *Contemporary Issues in the Early Years*. London: National Children's Bureau, tt.137-149.

Sylwer yn yr enghraifft hon eich bod yn rhoi rhifau tudalennau'r bennod a ysgrifennwyd gan Wolfendale a Wooster.

Yn nhestun eich traethawd byddwch naill ai'n dyfynnu Wolfendale a Wooster (1996) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (Wolfendale a Wooster, 1996).

Cyfeirnod Llyfrau sydd â Sawl Argraffiad

Yn aml iawn mae llyfrau poblogaidd neu lyfrau defnyddiol iawn yn cael eu hailgyhoeddi ac mae'n bwysig eich bod yn nodi pa argraffiad rydych wedi'i ddarllen:

Er enghraifft:

Wrth gyfeirnod 2il argraffiad llyfr.

Sharman, C., Cross, W. a Vennis, D. (2000) *Observing Children, a Practical Guide*. (2il arg)

London: Continuum.

Os mai argraffiad cyntaf o lyfr ydyw does dim angen ychwanegu unrhyw wybodaeth am argraffiad y llyfr.

Dyfynnu eilaidd

Mae nifer o werslyfrau yn defnyddio enghreifftiau o ffynonellau eraill. Er enghraifft os ydych wedi darllen am Vygotsky, mae'n debygol eich bod wedi darllen am ei waith mewn gwerslyfrau neu erthyglau yn hytrach na'i weithiau ysgrifenedig gwreiddiol.

Dylech wneud hyn yn glir yn eich testun:

Er enghraifft:

Dyfynnu'n uniongyrchol

Cafwyd trafodaeth gan Vygotsky (1978 dyfynnwyd yn Daniels, 2005: 56) am y Parth Datblygiad Procsimol.

neu

Dyfynnu'n Anuniongyrchol

Ceir trafodaeth am ddysgu a datblygiad yn namcaniaeth y Parth Datblygiad Procsimol (Vygotsky 1978 dyfynnwyd yn Daniels, 2005: 56).

Fel hyn rydych chi ond yn dyfynnu'r llyfr rydych wedi'i ddarllen yn y Rhestr Cyfeirnod/Llyfryddiaeth:

Daniels, H. (gol) (2005) *An Introduction to Vygotsky*. London: Routledge.

4.2 Cyfeirnod Llyfrau Electronig

Llyfrau Electronig (E-lyfrau)

Mae'r fformat ar gyfer cyfeirnod llyfrau electronig yn debyg i'r fformat ar gyfer llyfrau confensiynol.

Rhoddir yr awdur, dyddiad a rhif y dudalen (os yn briodol) yn y testun yn yr un ffordd â gyda llyfr confensiynol.

Er enghraifft:

(Dean, 2008: 56)

Mae'r dyfyniad ar gyfer llyfr electronig mewn Rhestr Cyfeirnod yn dilyn yr un fformat ag unrhyw lyfr arall, ond rydych chi'n cofnodi'r dyddiad y defnyddioch chi'r e-lyfr a manylion y cyfeiriad gwefan (URL) perthnasol, yn ogystal â nodi mai e-lyfr ydyw.

Er enghraifft:

Dean, J. (2008) *Managing the Primary School: Educational Management Series*. London: Routledge. [e-lyfr]. Ar gael yn <http://www.netLibrary.com/Reader> [Darllenwyd: 7 Ebrill 2017].

Marshall, G. (1990) *In Praise of Sociology*. London: Unwin Hyman.. [e-lyfr]. Ar gael yn: http://www.swan.ac.uk/lis/information_gateway/ebooks/marshall/ [Darllenwyd : 24 Mawrth 2017].

4.3 Cyfeirnod i Erthyglau Cylchgronau

Cylchgronau

Mae cylchgronau neu gyfnodolion yn gyhoeddiadau a gyhoeddir bob wythnos, mis, chwarter ayb. Maen nhw'n rhai academiaidd a adolygir gan gymheiriaid sy'n golygu bod gwaith a gyhoeddir yn y cylchgrawn wedi cael ei farnu a'i archwilio gan arbenigwyr cyn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn y cyhoeddiad. Cyfeirir at y cylchgronau hyn weithiau fel cyfnodolion.

Fel arfer mae pob cylchgrawn yn cynnwys o leiaf 6 erthygl wahanol bob tro mae'n cael ei gyhoeddi. Er enghraifft gall y cylchgrawn *Early Years* gynnwys 10 erthygl yn amrywio o erthyglau am ddatblygiad iaith i erthyglau am anghenion addysgol arbennig. Cyhoeddir pob erthygl gan wahanol ymchwilwyr ac arbenigwyr yn y blyneddodded cynnar o bob cwr o'r Deyrnas Unedig ac yn aml iawn y byd.

O ganlyniad byddwch yn aml ond yn defnyddio rhai o'r erthyglau rydych chi'n eu darllen mewn cylchgrawn penodol yn hytrach na'r cylchgrawn cyfan. Er enghraifft os oes gennych ddiddordeb mewn dwyieithrwydd mewn plant ifanc yna byddwch yn darllen erthyglau o wahanol gylchgronau sy'n ymchwilio i'r maes hwn.

Rhaid i chi felly ddynodi yn eich Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth yn union pa erthyglau (a elwir weithiau'n bapurau) rydych wedi'u darllen o'r holl erthyglau posibl a geir yn y gwahanol argraffiadau o gylchgrawn.

Fformat i'w ddilyn (argraffu siwrnalau):

Awdur(on)

Coma ar ôl y cyfenw

Atalnod llawn ar ôl llythyren gyntaf yr enw

Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)

Enw'r erthygl mewn dyfynodau sengl (gyda choma i ddilyn)

Enw'r cylchgrawn mewn print italig (gyda choma i ddilyn)

Rhif y gyfrol os yw wedi'i nodi (gyda choma i ddilyn)

Y rhifyn os yw wedi'i nodi (gyda choma i ddilyn)

Mis neu amser o'r flwyddyn os yw wedi'i nodi (gyda choma i ddilyn)

Tudalennau (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Defnyddir tt. i nodi tudalennau ac rydych chi'n nodi tudalen gyntaf ac olaf yr erthygl a ddefnyddiwyd gennych.

Er enghraifft:

Chalmers, J. a Chaudhuri, U. (2004) 'Sniff Art', *The Drama Review: The Journal of Performance Studies*, Haf, tt.76-80.

Fuller, M., Bradley, A., Healey, M. (2004) 'Incorporating disabled students within an inclusive higher education environment', *Disability and Society: The Leading Journal in Disability Studies*, 19, 5, Awst, tt.455-468.

Somekh, B. a Davies, R. (1991) 'Towards a pedagogy for information technology', *The Curriculum Journal*, 2, 2, tt.153-70.

Fel arfer bydd y wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar dudalen flaen yr erthygl benodol rydych chi'n ei defnyddio neu ym mhennyn neu droedyn yr erthygl.

Bydd yr awdur, y dyddiad a'r tudalen(nau) yn ôl yr angen, yn mynd yn nhestun eich aseiniad.

Er enghraifft:**Uniongyrchol**

Chalmers a Chaduduri (2004)

Anuniongyrchol

(Chalmers a Chaduduri, 2004)

4.4 Cyfeirnodî Cylchgronau Electronig

E-Gylchgronau

Mae e-gylchgronau'n cael eu cyfeirnodî yn yr un modd â chylchgronau papur confensiynol ond rydych chi'n ychwanegu'r manylion canlynol:

[Ar-lein]

Cyfeiriad gwe

Dyddiad darllen

Weithiau yn y math hwn o erthygl fydd dim tudalennau gan nad ydynt yn ymddangos ar y sgrin. Os nodir tudalennau rhaid i chi eu hychwanegu at eich Rhestr Cyfeirnodî/Llyfryddiaeth.

Er enghraifft:

Jenkins, R. (1989) Clashing with caching. *Ariadne*, 21,10 Medi, [Ar-lein]. Ar gael yn:

<http://www.ariadne.ac.uk/issue21/web-cache/>

[Darllenwyd: 2 Rhagfyr 2004].

Powers, D. E. a Kaufman, J.C. (2003) 'Do standardized tests penalize deep-thinking, creative, or conscientious students? Some personality correlates of Graduate Record Examinations test scores' *Intelligence*, 32, tt.145-153. [Ar-lein]. Ar gael yn:

<http://www.sciencedirect.com/> [Darllenwyd: 24 Mai 2007].

Fel arfer byddwch chi'n defnyddio gwybodaeth o lyfrau, erthyglau cylchgronau, e-lyfrau ac e-gylchgronau. Fodd bynnag mae ffynonellau eraill y gallech eu defnyddio weithiau. Mae'r adran nesaf yn darparu rhai enghreifftiau defnyddiol.

4.5 Cyfeirnod Gwefannau

Gwefannau

Dylech fod yn ofalus wrth ddefnyddio gwefannau. Dylech ond ddefnyddio gwefannau mae'ch darlithwyr wedi'ch cynghori chi i'w defnyddio, neu rai sy'n debygol o fod yn ddibynadwy megis:

.ac.uk

.gov.uk

Ni ddylech **fyth ddefnyddio** safle Wikipedia yn eich aseiniadau gan nad yw ei gynnwys bob amser yn fanwl gywir. Os nad ydych yn siŵr, dylid gofyn i'ch darlithydd neu aelod o staff y Llyfrgell.

Cyfeirnod Gwefannau

Fformat i'w ddilyn:

Enw'r awdur neu sefydliad

Year that the site was published/ last updated (mewn cromfachau crwn)

Teitl yr erthygl (mewn dyfynodau sengl)

Ar gael yn: Gwe gyfeiriad yn llawn

Darllenwyd ar - dyddiad [mewn cromfachau sgwâr]

Enghraifft 1

Petaech chi eisiau cyfeirnod i'r safle canlynol:

<http://webpace.ship.edu/cgboer/piaget.html>

oedd yn cynnwys erthygl a ysgrifennwyd gan C.G. Boeree

Yn nhestun eich traethawd byddech yn nodi:

Astudiodd Piaget epistemoleg enetig, sef astudiaeth o ddatblygiad gwybodaeth (Boeree, 2006).

Yn eich Rhestr Cyfeirnodau byddech yn nodi:

Boeree, C.G. (2006) 'Personality Theories. Jean Piaget 1896-1980' Ar gael yn:

<http://webpace.ship.edu/cgboer/piaget.html> [Darllenwyd: 18 Tachwedd 2008].

Enghraifft 2

Pan nad ydych chi'n gallu dod o hyd i'r awdur, defnyddiwch enw'r sefydliad.

Petaech chi eisiau cyfeirnod i'r safle canlynol gan y BBC:

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/7734576.stm>

Yn nhestun eich traethawd byddech yn nodi:

Ers achos Babi P bu'n angenrheidiol newid polisi amddiffyn plant (BBC, 2008).

Yn eich Rhestr Cyfeirnodau byddech yn nodi:

BBC (2008) 'Child Protection Plans Revealed' Ar gael yn:

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/7734576.stm> [Darllenwyd: 18 Tachwedd 2008].

Enghraifft 3

Petaech chi eisiau cyfeirnodu'r safle canlynol gan yr NHS:

<http://www.nhs.uk/news/2008/11November/Pages/Tomatoesandfertility.aspx>

Yn nhestun eich traethawd byddech yn nodi:

Mae tomatos wedi cael eu cysylltu â chynnydd mewn ffrwythlondeb (NHS, 2008).

Yn eich Rhestr Cyfeirnodau byddech yn nodi:

NHS (2008) 'Tomatoes and Fertility' Ar gael yn:

<http://www.nhs.uk/news/2008/11November/Pages/Tomatoesandfertility.aspx> [Darllenwyd: 18 Tachwedd 2008].

Os oes gennych fis a blwyddyn ar gyfer erthygl ar wefan dylech ddefnyddio'r ddau.

Enghraifft 4

Os nad ydych yn gallu dod o hyd i awdur na sefydliad ar gyfer gwefan yna:

Yn eich Traethawd:

Awgryma ymchwil fod chwarae yn bwysig ar gyfer datblygiad plant (Awdur anhysbys, 2008).

Yn y Rhestr Cyfeirnodau:

Awdur anhysbys. (2008) 'Play and Children' Ar gael yn: <http://www.goeearlyyears.pdf.76789> [Darllenwyd: 18 Tachwedd 2008].

Enghraifft 5

Os na allwch ddod o hyd i ddyddiad ar gyfer erthygl ar wefan:

Yn nhestun eich traethawd:

Mae dysgu yn yr awyr agored yn rhoi nifer o sgiliau echddygol bras pwysig i blant (Jones, dyddiad anhysbys).

Yn y Rhestr Cyfeirnodau:

Jones, E. (dyddiad anhysbys) 'Outdoor learning' Ar gael yn:

<http://www.goeearlyyears.pdf.76789> [Darllenwyd: 18 Tachwedd 2008].

Os na allwch ddarganfod yr awdur, y sefydliad neu'r dyddiad, dylid osgoi'r wefan.

4.6 Cyhoeddiadau gan lywodraethau a sefydliadau eraill

Mae rhai adroddiadau'n cael eu hysgrifennu gan sefydliad neu adran o'r llywodraeth.

Er enghraifft gellir cyfeirnodu dogfen y Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn nhestun yr aseiniad byddech yn dyfynnu'r awdur a'r dyddiad yn yr achos hwn

(Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008) neu (APADGOS, 2008).

Os ydych chi wedi agor yr adroddiad ar-lein yna rydych chi'n ychwanegu manylion perthnasol y we.

Er enghraifft:

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:

http://wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/foundationphase/foundation2008-e.pdf?lang=en [Darllenwyd: 4 Mehefin 2005].

Papurau llywodraeth

Er enghraifft:

Yn y Rhestr Cyfeirnodau:

Papur gwyn:

Great Britain: Department of Health (1996) *Choice and Opportunity: primary care: the future*. Cm.3390. London, Stationery Office.

Papur gwyrdd:

Great Britain: Department of Health (1998) *Our Healthier Nation: a contract for health*. Cm 3854. London, Stationery Office.

Deddf Seneddol:

Great Britain: National Health Service and Community Care Act (1990) Chapter 19. London, HMSO, 1990.

Mewn testun:

(Great Britain National Health Service and Community Care Act, 1990).

4.7 Cyfeirnod i Papurau Newydd

Papurau newydd

Fformat i'w ddilyn:

Awdur(on)

Blwyddyn (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Teitl yr erthygl (mewn dyfynodau sengl, gyda choma i ddilyn)

Teitl y Papur newydd (mewn print italig) wedi ei ddilyn gan y rhifyn os bod angen (mewn cromfachau crwn)

Dyddiad a Mis (gyda cholon i ddilyn)

Tudalen(nau) (gyda atalnod llawn i ddilyn)

Er enghraifft:

Gibson, O. a Plunkett, J. (2004) 'Public doubt over licence fee for declining BBC', *The Guardian*. 21 Gorffennaf: tt.2.

Os yw'r erthygl papur newydd ar-lein yna rydych chi'n ychwanegu manylion perthnasol y we.

Er enghraifft:

Gibson, O. a Plunkett, J. (2004) 'Public doubt over licence fee for declining BBC', *The Guardian*. 21 Gorffennaf: tt.2. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.guardian.co.uk/456789> [Darllenwyd: 24 Mai 2007].

4.8 Cyfeirnod Rhaglenni Teledu / Radio

Rhaglenni Teledu / Radio

Fformat i'w ddilyn:

Teitl y Rhaglen (mewn print italig gydag atalnod llawn i ddilyn)

Blwyddyn darlledu (mewn cromfachau crwn)

Rhif yr Episod (os yw ar gael) (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Teitl yr Episod (mewn dyfynodau)

Sianel (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Dyddiad darlledu (diwrnod/mis gydag atalnod llawn i ddilyn)

Amser darlledu (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Yn y testun:

Yn yr achos hwn yn nhestun eich aseiniad ni fydddech yn dyfynnu awdur ond yn hytrach enw rhaglen.

Horizon (2004)

(Horizon, 2004)

Yn y Rhestr Cyfeirnodau:

Horizon. (2004) Episod 25. 'Climate Change' BBC2. 30 Awst. 2100 o'r gloch

Cyfweliad Teledu / Radio

Yn y testun:

Datganodd Jones (2006) "outdoor play benefits children by allowing them to explore their creativity in a stimulating and diverse arena."

Rhoddir dyfynodau dwbl i'r dyfyniadau hyn oherwydd rydych chi'n cyfeirio at eiriau a siaradwyd yn y rhaglen yn hytrach na dyfyniadau ysgrifenedig.

Enghraifft mewn Rhestr Cyfeirnodau

Jones, R. (2006) 'Cyfweliad' Yn: *Playtime*. BBC4. 22 Gorffennaf. 1800 o'r gloch.

4.9 Cyfeirnod Ffilm / Fideo neu DVD

Ffilm / Fideo / DVD

Fformat i'w ddilyn:

Teitl (mewn print italig gydag atalnod llawn i ddilyn)

Blwyddyn Rhyddhau (mewn cromfachau crwn)

Enw'r Cyfarwyddwr (os yn briodol) (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Lle (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Cwmni Cynhyrchu (gyda choma i ddilyn)

Fformat y Cyfrwng [mewn cromfachau sgwâr] gydag atalnod llawn i ddilyn

Yn y Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth:

Ffilm

Whatever Happened to Baby Jane? (1962) Cyfarwyddwyd gan Robert Aldrich. USA.

Warner Bros, [Ffilm: 35mm].

Fideo

Reading with Colour: A Film about Meares-Irlen Syndrome. (2000) Essex: Sylva.

Cynrychiadau mewn cydweithrediad ag University of Essex Visual Perception Unit,. [Fideo: VHS].

Health for All Children 3: the video. (2004) London: Child Growth Foundation, [Fideo: VHS].

DVD

Blade Runner: the Director's Cut. (1992) Cyfarwyddwyd gan Ridley Scott. USA: Warner Bros, [DVD].

Yn y testun rydych chi'n dyfynnu enw'r ffilm neu'r DVD / fideo gyda'r dyddiad yn hytrach nag awdur.

Er enghraifft:

Yn y testun:

(*Reading with Colour: A Film About Meares-Irlen Syndrome*, 2000).

4.10 Papurau a Chyflwyniadau mewn Cynadleddau

Fformat i'w ddilyn:

Awdur

Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)

Teitl y papur (mewn dyfynodau sengl)

Teitl y gynhadledd (mewn print italig gydag atalnod llawn i ddilyn)

Trefnwyr y gynhadledd (gyda choma i ddilyn)

Lleoliad a dyddiad y gynhadledd (gydag atalnod llawn i ddilyn)

Cyfeiriadau tudalen y papur

Os ydy'r papur ar gael ar lein dylid cynnwys manylion mynediad**Er enghraifft:****Yn y Rhestr Cyfeirnodau**

Jones, M. (2004) 'Sliding into the swamp? A Study of Newly Qualified Teachers Engaging in Critical Reflection upon Their Practice' *Hawaii International Conference on Education*. University of Hawaii, Honolulu, U.S.A. (3-6 Ionawr) t.127-136.

Yn y testun:

Fe wnaeth Jones (2004) ymchwilio i brofiadau athrawon newydd.

Fe wnaeth y prosiect arloesol yma ymchwilio i brofiadau athrawon newydd (Jones, 2004).

4.11 E-bost

E-bost

Fformat i'w ddilyn:

Awdur yr e-bost (anfonwr)

Blwyddyn (mewn cromfachau crwn)

Testun (mewn print italig gydag atalnod llawn i ddilyn)

e-bost at enw'r derbynnydd [mewn cromfachau sgwâr]

Dyddiad yr e-bost (mewn cromfachau gydag atalnod llawn i ddilyn)

Enghraifft yn y Rhestr Cyfeirnodau:

Steel, L. (2015) *Harvard Referencing*. [e-bost at Lewis, C.] (3 Mai 2017).

Yn y testun:

(Steel, 2015)

Rhaid i chi gael **caniatâd** gan y person(nau) arall dan sylw cyn dyfynnu e-bost.

5. Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth

Dylai'r cyfeirnodau a ddefnyddiwyd drwy gydol testun eich aseiniad gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw'r awdur ac enw'r sefydliad.

Rydych chi'n llunio un rhestr. **Does dim angen gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o gyfeirnodau. Felly mae llyfrau, erthyglau cylchgronau, gwefannau ac unrhyw ffynonellau eraill yn ymddangos ar un rhestr.**

Yn atodol mae darn o destun ffug enghreifftiol gyda rhestr gyfeirnodau er mwyn i chi weld sut y dylai darn o ysgrifennu academaidd edrych gyda system gyfeirnodu wedi'i defnyddio'n gywir. Sylwer y dylai'r Rhestr Cyfeirnodau/Llyfryddiaeth ddechrau ar dudalen newydd gyda theitl. Bydd y bylchiad llinellau a ddefnyddir i lunio'r rhestr yr un peth a'r hyn a ddefnyddir yn eich traethawd (bylchiad 1.5). Mae pob cyfeiriad yn dechrau ar linell newydd yn union o dan y cyfeirnod o'i flaen.

Darn o draethawd ffug

Mae sawl astudiaeth ymchwil wedi dynodi bod plant yn meithrin nifer o sgiliau a phriodoleddau pwysig (yn cynnwys hyder, hunan-barch, sgiliau echddygol, a dysgu lefel uwch) wrth iddynt gael y cyfle i chwarae mewn amgylchedd awyr agored (Evans, 2007a; Jones, 2007; Singh, 2003). Ceir consensws mewn ymchwil ddiweddar fod profiadau a chwarae yn yr awyr agored yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial llawn (Harper, 2007; Marion, 2008; Murphy, 2008). Amlygir hyn yn arbennig o dda yng ngwaith Singh (2003).

What better opportunity than playing in nature to allow children to exercise, take part in discovery learning, be creative, learn about their place in the world and engage with their natural landscape. There are many temptations such as television, video / DVD and computer games which serve to keep children indoors. However none of these activities can provide the social, environmental and cultural benefits of playing in the great outdoors, be that the back yard, park or nature reserve.

(Singh, 2003: 34)

Ceir nifer o enghreifftiau o leoliadau gofal plant yn ymgymryd â gwaith sy'n hybu chwarae awyr agored (Jones, 2007a; Singh, 2003; Tilbury, 2007). Un enghraifft o'r fath yw'r lleoliad gofal plant yn Llanercradog, De Cymru, ysgol feithrin i blant rhwng dwy a phump oed. Amlygodd astudiaeth ymchwil arsylwadol gan Jones ac Evans (2008) fod gan y plant a dderbyniai gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored yn y feithrinfa well sgiliau echddygol, gan gynnwys cydgysylltiad llaw a llygad. Dynodai'r un astudiaeth fod gan blant well sgiliau cymdeithasol gan gynnwys parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (Jones ac

Evans, 2008). Arsylwyd ar blant 'playing and working on tasks together even though they had only met a few minutes earlier' (Jones ac Evans, 2008: 126).

Awgryma llenyddiaeth ymchwil o Ddenmarc fod nifer o fanteision cymdeithasol a manteision iechyd i blant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni estynedig o chwarae yn yr awyr agored (Johansen, 2005; Merrick et al., 2003; Thomas, 2005). Defnyddiwyd y gweithgareddau hir sefydledig o ddysgu a chwarae yn yr awyr agored yn Nenmarc fel model ar gyfer arfer da ar draws Cymru (Evans, 2007b). Mae mentrau megis y rhaglen Ysgolion Coedwig yn seiliedig ar nifer o ddamcaniaethau dysgu trwy brofiadau a amlygwyd yn yr astudiaethau yn Nenmarc (Johansen, 2005; Merrick et al., 2003). Mae profiadau'r awdur ei hun o brosiect Ysgol Goedwig wedi atgyfnerthu nifer o'r darganfyddiadau mewn llenyddiaeth ddiweddar. Gwnaeth prosiect Ysgol Goedwig a luniwyd ar gyfer plant y blynyddoedd cynnar (dwy i bump oed) ym Mrechfa ddarparu amgylchedd ysgogol lle'r oedd modd i'r plant ddatblygu galluedd cymdeithasol a chorfforol trwy chwarae a dysgu trwy brofiadau. Amlygwyd tystiolaeth o'r sgiliau a ddatblygwyd yn Hwyl yr Ysgol Goedwig (2008).

Cyfeiriadau/Llyfryddiaeth

- Evans, D. (2007a) 'Play and development'. *Early Years Journal*, Volume 1, t. 98-112.
- Evans, D. (2007b) *Learning through play*. Cardiff: Cardiff University Press.
- Forest School Fun. (2008) Carmarthenshire: Carmarthenshire Films, [DVD].
- Harper, G. (2007) *The outdoor way of life*. London: Nuffield Press.
- Johansen, L. (2005) *The Danish way of learning*. Copenhagen: Grubber Press.
- Jones, Y. (2007) *Playing is Learning Principles and Context*. London: Falmer.
- Jones, Y. and Evans, D. (2008) *Good practice in Wales*. Talybont: Lolfa.
- Marion, H. (2008) *Getting the most out of the early years*. Oxford: Blackwell Publishing.
- Merrick, P., Jones, L., Evans, D. and Canock, H. (2003) 'Experiential learning the Danish way', *Review of Education*, Vol. 7, t. 45-56.
- Murphy, C. (2008) 'Let's go down to the sea again' *Early Years Learning*, Vol. 19 t. 56-98.
- Singh, P. (2003) *Fun and Learning*. York: Rowntree Press.
- Thomas, N. (2005) *A different way of learning*. Manchester: Guardian Press.
- Tilbury, R. (2007) *Making the most of the outdoors*. London: Sure Start Press.

Mae cyfeirnod yn agwedd bwysig o waith academiaidd, ond mae angen ei ymarfer. Cofiwch ofyn os ydych chi angen cymorth. Mi fedrwnch ymweld â'r Llyfrgell i drefnu ymgynghoriad Sgiliau Gwybodaeth.
